**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad**
**a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus

19 Gorffennaf 2024

Annwyl Mark,

**Caffael Cerbydau Trydan gan Lywodraeth Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mehefin ynglŷn Chaffael Cydweithredol Prynu Cerbydau Trydan.

O dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) mae pob cynigydd yn cael ei asesu yn unol â nifer o feini prawf gwahardd – rhai gorfodol a rhai yn ôl disgresiwn – sy'n cynnwys asesu perfformiad blaenorol y cwmni a'r personau cysylltiedig. Roedd y meini prawf a gafodd eu profi ar gyfer gwahardd gorfodol yn cynnwys; cynllwyn; llygredigaeth; twyll; a thaliadau treth (ond nad oeddent wedi'u cyfyngu i'r rhain). Roedd y meini prawf ar gyfer gwahardd yn ôl disgresiwn yn cynnwys perfformiad y cynigydd mewn perthynas â meysydd fel toriadau amgylcheddol; methdaliad; contractau cyhoeddus a oedd wedi cael eu terfynu yn y gorffennol ac ati.

Nid oedd y gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd wedi codi unrhyw bryderon ynghylch FleetEV a fyddai'n arwain at naill ai gwahardd gorfodol nac a fyddai'n berthnasol i unrhyw rai o'r meini prawf yn ôl disgresiwn a gafodd eu profi.

Oherwydd bod hyn wedi cael ei sefydlu fel Cytundeb Fframwaith, caiff sefydliadau sector cyhoeddus eu hunain benderfynu a ydynt am benodi FleetEV o dan drefniadau yn ôl y gofyn uniongyrchol neu ddefnyddio llwybrau eraill i'r farchnad.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.